



CYMRYD RHAN CBDC 2026-2036

Cymdeithas Bêl-droed Cymru

CYFLWYNIAD

P'un a oes rhywun yn cymryd rhan yn y gêm yn hamddenol neu'n llwyddo i gyrraedd y tîm cenedlaethol, mae pob profiad pêl-droed yn dechrau ar lawr gwlad. Gall y profiadau cynnar hyn sbarduno cysylltiad oes â'r gêm fendigedig. Nid yn unig mae pêl-droed yn ysbrydoli unigolion, ond mae hefyd yn cryfhau cymunedau. Mae clybiau ledled Cymru yn ganolbwynt i'w cymunedau, gan ddod â phobl ynghyd trwy eu hangerdd at y gêm.

Fel y chwaraeon tîm mwyaf poblogaidd yng Nghymru, mae lefelau cymryd rhan ar draws y wlad yn parhau i dyfu. Ar ddechrau 2026, fe gyrhaeddodd ni dros 120,000 o chwaraewyr cofrestredig. Dros y ddegawd nesaf, rydym i'n gobeithio parhau i dyfu'r g gêm i dros 160,000 o chwaraewyr. Gyda thwf mewn pêl-droed menywod a merched ar draws Cymru, rydym ni'n rhagweld mai chwaraewyr benywaidd newydd fydd hanner y twf hwn. Oni bai y nodir yn benodol, mae'r cynllun cymryd rhan hwn ar gyfer pêl-droed yng Nghymru yn cynnwys pêl-droed gwrywaidd a benywaidd, gan sicrhau dull cynhwysol i'n hymdrechion a'n buddsoddiad. Mae pêl-droed cynhwysol yn ymestyn y tu hwnt i rywedd, gan sicrhau cyfleoedd i bobl o bob gallu, cefndir, lefelau sgiliau ac amgylchiadau economaidd gymdeithasol.

Tra bod chwaraewyr wrth wraidd ein gêm, mae pêl-droed yn dibynnu ar nifer o bobl eraill sy'n rhan o'r gêm yn rhoi eu hamser a'u hegni.

Mae'r bobl hyn yn cynnwys hyfforddwyr a

cynnwys gweinyddwyr, gweithredwyr cyfleusterau, a llawer o wirfoddolwyr eraill.

Dros y cyfnod strategol hwn, bydd gan bob club yng Nghymru fynediad at gefnogaeth i ddatblygu. Fodd bynnag, byddwn yn rhagweithiol o ran nodi clybiau blaenoriaeth ar gyfer cydweithio â nhw yn fanylach. Byddwn yn nodi clybiau blaenoriaeth yn seiliedig ar y potensial iddynt gael yr effaith fwyaf yn eu cymuned, ac o ran datblygu'r gêm ledled Cymru.

Mae gan y deng mlynedd nesaf y potensial o fod yn drawsnewidiol i bêl-droed ledled Cymru. Ein cyfrifoldeb ni nawr yw rhoi'r cynllun hwn ar waith a gwireddu'r weledigaeth hon.



RHAN – RHIFAU A CHYFLAWNIADAU DIWEDDAR

#1

Chwaraeon
tîm yn y wlad
yn ôl lefelau
cymryd rhan



850+ Clybiau
Pêl-droed
Llawr Gwlad

6411

Hyfforddwyr
gweithredol

Cynghreiriau
llawr gwlad
(hŷn ac
iau)

67

120,000+ Chwaraewyr cofrestredig (gan gynnwys 20,000+ o fenywod a merched) 



926

o chwaraewyr anabl cofrestredig
(cynnydd x3 ers 2024)

7258

Gweinyddwyr / Gwirfoddolwyr Clwb

6

Cymdeithasau
Ardal

9138

Timau

72%

Gemau llawr gwlad lle'r oedd 
dyfarnwr cymwys wrth y llyw.

58%

Canfyddiad o
ymddygiadau
mewn pêl-droed llawr
gwlad: 'da' i 'gwyh'.

£30 miliwn+ – Cyllid mewn Cyfleusterau Pêl-droed Llawr Gwlad

4632

Chwaraewyr gyda threftadaeth ethnig amrywiol (cynnydd o 40% ers 2024)

47%

Lefelau
boddhad
gweinyddwyr llawr
gwlad 'da' i 'gwyh'.



72%

**Gemau llawr
gwlad lle'r oedd
dyfarnwr cymwys
wrth y llyw**



FFRAMWAITH STRATEGOL – LLUNIO CYMRU

Mae'r Cynllun Cymryd Rhan hwn yn alinio ei fframwaith strategol gyda strategaeth ehangach y sefydliad, **LLUNIO CYMRU**.

- Mae 'cymryd rhan' yn cynnwys pob gweithgarwch pêl-droed, o brofiadau cyntaf hyd at wahoddiad i ymuno â'r llwybr talent elît.
- Mae 'perfformiad' yn gysylltiedig â gweithgareddau pêl-droed, o gael eich cynnwys o fewn y llwybr talent elît hyd at y timau ieuenctid a'r tîm cyntaf cenedlaethol.

Fel is-gynllun ar gyfer y piler cymryd rhan, mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar amcanion, gweithredoedd, a mesurau llwyddiant ar draws themâu'r tri philer: Pobl, Llwybrau, a Lleoedd.

I gefnogi ein gwaith ar gymryd rhan, mae 14 o ffactorau galluogi. Mae gan bob un o'r ffactorau hyn is-gynllun sy'n amlinellu sut maent yn cyfrannu ac yn ymdrechu tuag at y ddau biler



GALLUGWYR

- | | | | | |
|---------------------------|--|-----------------------|--------------------------------------|---|
| • Cystadlaethau | • Cyfathrebu | • Cyllid | • Llywodraethiant a Chydymffurfiaeth | • Cynaliadwyedd Amgylcheddol |
| • Cyfleusterau | • Masnachol a Marchnata | • Adnoddau Dynol | • Hygrededd | • Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant |
| • Hyfforddwyr a Dyfarnwyr | • Materion Allanol, Diwylliant a'r Gymraeg | • Data a Mewnwelediad | • DiogelU | |





LLWYBRAU PÊL-DROED CYMERADWY CBDC

Un gêm. Llwybrau di-ri. Cyfleoedd oes



LLWYBR PERFFORMIAD CYMERADWY CBDC



ADNABOD TALENT

Nodi a chefnogi chwaraewyr gyda photensial.



ACADEMïAU CLWB PROFFESIYNOL

Hyfforddiant a datblygiad elît i bobl ifanc o fewn clybiau proffesiynol.



ACADEMïAU CBDC

Hybiau talent i ddatblygu chwaraewyr domestig o fewn hunaniaeth y Ffordd Gymreig.



PÊL-DROED PROFFESIYNOL

Cystadlu ar y lefelau uchaf.



CYSTADLAETHAU DOMESTIG

Cystadlu yn y gêm ddomestig.



CYNRYCHIOLI CYMRU YN Y TIMAU CENEDLAETHOL



LLWYBR CYMRYD RHAN CYMERADWY CBDC

CLYBIAU CYSYLLTIEDIG CBDC



BLYNYDDOEDD CYNNAR

(2-5 oed)

Sgiliau symud sylfaenol ac ymgysylltu â rhieni.



PÊL-DROED LLAI

(6-13 oed)

Gwneud ffrindiau, datblygu sgiliau a dealltwriaeth. 6-11 oed ddim yn gystadleuol.



PÊL-DROED IAU

(14-17 oed)

Datblygu potensial, cystadlu a pharatoi at bêl-droed oedolion.



PÊL-DROED IAU AC OEDOLION

(16 oed +)

Cadw'n heini, mwynhau'r gêm a chefnogi eraill.

FFORMATAU HYBLYG CYMERADWY CBDC

Fformatau enghreifftiol sydd ar gael



FUTSAL

Gemau llai. Cyflym. Technegol.



PÊL-DROED ANABLEDD

Pêl-droed cynhwysol i bawb.



PÊL-DROED HÏN

Pêl-droed ar gyfer chwaraewyr 35au, 45au, 55au a drosodd.



PÊL-DROED CERDDED

Cadw'n heini, cymryd rhan.



PÊL-DROED LLAI

Iechyd a lles.



RHAGLENNI CBDC

Anghystadleuol, hygyrch a chynhwysol.



PÊL-DROED AM OES



Trwy gydol y llwybr, mae'r dewisiadau cymryd rhan yn parhau'n eang, gan groesawu pawb i chwarae'r gêm. Cynigir cyfleoedd hamddenol a chystadleuol mewn amgylcheddau cymryd rhan. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw datblygiad yn un llwybr syth, a dyma pam mae'r llwybr chwarae yng Nghymru yn hyblyg, gan ganiatáu i chwaraewyr symud rhwng amgylcheddau cymryd

rhan a pherfformiad elît mewn amgylcheddau proffesiynol. Bydd rhai chwaraewyr hyd yn oed yn troedio'r ddau llwybr yr un pryd. Mae'n bwysig nodi mai dim ond cyfleoedd cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y llwybrau hyn gan fod CBDC yn gallu sicrhau safonau uchel a rheoliadau llym, gan sicrhau bod yr amgylcheddau hyn yn hybu datblygiad ac yn ddiogel.



POBL.



AMCAN CORFFORAETHOL.

Tyfu, cefnogi, a datblygu'r bobl
sy'n cynnal pêl-droed cymunedol,
ar y cae ac oddi arno.



BLAENORIAETHAU

- Recriwtio, ysbrydoli, denu a dathlu gwirfoddolwyr, gan ddarparu cyfleoedd hygyrch, diddorol ac ystyrlon i ddysgu, datblygu a chysylltu.
- Hyfforddi, defnyddio a chadw hyfforddwyr i gynnig profiadau boddhaus i chwaraewyr o bob gallu.
- Recriwtio a chadw swyddogion gêm i sicrhau bod cystadlaethau yn deg ac wedi'u trefnu'n dda.
- Cefnogi a sicrhau adnoddau ar gyfer ymarferwyr addysgol a phartneriaid CBDC i ddarparu cyfleoedd chwarae o ansawdd y tu allan i bêl-droed llawr gwlad cysylltiedig.
- Datblygu llwybrau cynhwysol a chynrychioliadol ar gyfer hyfforddi, dyfarnu a gwirfoddoli ar draws pêl-droed Cymru, gan ddileu rhwystrau a chreu mynediad teg ar bob lefel o'r gêm.

MESURAU LLWYDDIANT

- Cynyddu nifer yr hyfforddwyr cymwys, cysylltiedig 30%.
- 75% o wirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael y gefnogaeth a'r adnoddau i lwyddo yn eu rôl.
- Erbyn 2035, pob gêm gystadleuol ar lefel Dan 12+ i gael ei gweinyddu gan ddyfarnwr niwtral cymwys.
- Sicrhau bod profiadau pêl-droed gweinyddwyr clybiau o leiaf 70% yn bositif ('da' i 'gwyh') .
- Cynyddu nifer yr hyfforddwyr benywaidd cymwys, cysylltiedig 40%.
- Cynyddu nifer y dyfarnwyr benywaidd cofrestredig bedair gwaith, gan sicrhau bod 80% o'r dyfarnwyr benywaidd cymwys yn weithredol.



LLWYBRAU.



AMCAN CORFFORAETHOL.

Darparu cyfleoedd cymryd rhan i
dyfu a chynnal nifer y bobl sy'n
chwarae pêl-droed.



BLAENORIAETHAU

- Creu a darparu profiadau hwyl ac addas i oedran i ddenu a recriwtio chwaraewyr newydd i'r gêm.
- Canolbwyntio ymdrechion cadw ar chwaraewyr rhwng 12-17 oed gan fynd i'r afael â'r prif bwyntiau lle maent yn rhoi'r gorau i'r gêm ac annog cyfraniad oes yn y gêm.
- Datblygu llwybrau cymryd rhan cynhwysol, hyblyg a chynrychioliadol ar draws pêl-droed Cymru, gan ddileu rhwystrau cymdeithasol-economaidd a chreu mynediad teg ar bob lefel o'r gêm.
- Cydweithio gyda Phartneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol, Awdurdodau Lleol, a Sefydliadau Cymunedol i gynyddu cyfleoedd pêl-droed mewn ardaloedd difreintiedig gyda lefelau cymryd rhan is.
- Hyrwyddo a chefnogi'r gêm llawr gwlad trwy dargedu cyfathrebiadau clir a phersonol sy'n ysbrydoli, yn cynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd, yn gwella dealltwriaeth o'r llwybr chwarae, ac yn cryfhau cysylltiad ar draws pêl-droed Cymru.

MESURAU LLWYDDIANT

- Cynyddu nifer y chwaraewyr cofrestredig o 120,000 i 160,000 gydag o leiaf 20,000 o'r chwaraewyr newydd yn fenywod a merched.
- 50% o'r holl chwaraewyr rhwng 2-4 oed yn fenywaidd.
- Cynyddu nifer y merched cofrestredig 5-11 oed 100%.
- Cynnydd o 10% ymhlith bechgyn cofrestredig 5-11 oed.
- Gostyngiad o 50% yn y chwaraewyr rhwng 12-17 oed sy'n rhoi'r gorau i'r gêm.
- Targedu prosiectau yn y 100 cymuned mwyaf difreintiedig ac amrywiol i dyfu lefelau cymryd rhan yn yr ardaloedd hyn.



AMCAN CORFFORAETHOL.

Datblygu fformatau chwarae modern a hyblyg sy'n diwallu anghenion pêl-droed cymunedol a llwybrau pêl-droed ar gyfer y dyfodol.



BLAENORIAETHAU

- Gweithio gyda phartneriaid i lunio a darparu strwythurau cystadlu cynaliadwy a chyfleoedd hamddenol sy'n ymateb i anghenion esblygiadol chwaraewyr, clybiau, a chymunedau, gan ysgogi mwy i gymryd rhan, sefydlu cydbwysedd cystadleuol cryfach, a chadw chwaraewyr yn y gêm yn yr hirdymor.
- Darparu llwybrau cystadleuol cynhwysol, hygyrch, sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad fel y gall chwaraewyr o bob oed, rhywedd, gallu, a chefnidir gael blas ar bêl-droed llawr gwlad, parhau i chwarae'r gêm a datblygu oddi mewn iddi.
- Sefydlu cyfleoedd i bobl anabl chwarae pêl-droed, gan gynnwys fformatau hamddenol, o fewn clwb, addysg, penodol i anabledd, a chymysg.
- Datblygu gêm llawr gwlad gyson, gynaliadwy ac wedi'i llywodraethu'n dda yng Nghymru ar draws Cymdeithasau Ardal, cynghreiriau a darparwyr preifat trwy safonau modern, gwell llywodraethiant, ansawdd cyson, a dulliau cydweithredol o weithio.

MESURAU LLWYDDIANT

- Sicrhau bod profiadau pêl-droed chwaraewyr o leiaf 70% yn bositif ('da' i 'gwyh').
- 100% o ysgolion yn cynnig cyfleoedd pêl-droed i ferched.
- Dyblu nifer yr oedolion benywaidd cofrestredig, gan gynnwys 2,000 yn fwy o fenywod yn chwarae pêl-droed hamddenol.
- Treblu nifer yr oedolion cofrestredig sy'n chwarae pêl-droed hamddenol.
- Treblu nifer y chwaraewyr anabl cofrestredig, gan gynnwys 500 o fenywod a merched cofrestredig.
- 100% o gynghreiriau llawr gwlad yn cyflawni'r lleiafswm o ran safonau Achredu'r Gynghrair .



LLEOEDD.



AMCAN CORFFORAETHOL.

Creu amgylcheddau diogel,
croesawgar a phositif i bawb sy'n
cymryd rhan mewn pêl-droed.



BLAENORIAETHAU

- Gwella ymddygiad chwaraewyr, rhieni, hyfforddwyr, swyddogion, a chefnogwyr o fewn pêl-droed cymunedol trwy raglen addysg a newid ymddygiad benodol CBDC.
- Cynnal a gwella safonau diogelu cadarn a diwylliant sy'n canolbwyntio ar y person ar draws pêl-droed llawr gwlad yng Nghymru i leihau risgiau.
- Parhau i adrodd, cofnodi ac ymateb i achosion diogelu yn gyfrifol i gryfhau ymddiriedaeth ar draws pêl-droed llawr gwlad.
- Codi ymwybyddiaeth a gwella hygyrchedd addysg, adnoddau a llwybrau adrodd diogelu i bawb sy'n cymryd rhan.
- Cael gwared ar gasineb a gwahaniaethu ar bob lefel o'r gêm.

MESURAU LLWYDDIANT

- Sicrhau profiadau sydd o leiaf 70% yn bositif ('da' i 'gwych') o ymddygiadau mewn pêl-droed.
- Sicrhau sgôr sydd o leiaf 70% yn bositif am gynhwysiant a pherthyn mewn arolygon blynyddol.
- 100% o Swyddogion Diogelu Clybiau yn meddu ar Wobr Diogelu Lefel 1.
- 100% o hyfforddwyr cofrestredig ym maes pêl-droed iau yn meddu ar Wobr Diogelu Lefel 1.
- Cynnal gwaith meincnodi er mwyn deall yn well sut i gyflwyno'r Wobr Diogelu Lefel 2.
- Lleihau achosion o gasineb a gwahaniaethu o 70% erbyn 2036, gan ymchwilio yn llawn i 100% o adroddiadau am wahaniaethu.



AMCAN CORFFORAETHOL.

Datblygu clybiau pêl-droed
cynhwysol a chynaliadwy
sy'n gwella bywydau
eu cymuned.



BLAENORIAETHAU

- Trawsnewid y rhwydwaith clybiau ledled Cymru trwy weithredu gweledigaeth clybiau pêl-droed cymunedol y dyfodol trwy gyfrwng Rhaglen Clybiau o Ansawdd a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n gyrru gwelliant parhaus, yn cryfhau gallu clybiau ac yn sicrhau bod gan glybiau'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddiwallu anghenion esblygiadol eu cymunedau.
- Hybu clybiau pêl-droed diogel, croesawgar ac amrywiol sy'n cryfhau lles, ymdeimlad o berthyn a chydlyniant cymdeithasol ledled cymunedau Cymru.
- Cefnogi clybiau blaenoriaeth i gynllunio datblygiad cynhwysol a darparu rhaglenni iechyd cymunedol.
- Integreiddio systemau digidol i'w gwneud yn haws ac yn fwy effeithlon i wirfoddolwyr weinyddu clybiau.
- Adeiladu ecosystem bêl-droed sy'n gwrthsefyll hinsawdd ac sy'n cefnogi clybiau, cynghreiriau a chymdeithasau ardal i addasu i risgiau amgylcheddol, diogelu natur a chyfrannu at Gymru deg a chyfrifol yn fyd-eang.

MESURAU LLWYDDIANT

- Sefydlu a chynnal rhwydwaith genedlaethol o glybiau Rhaglen Clybiau o Ansawdd CBDC, gyda 30% o glybiau cysylltiedig yn cyflawni safonau Club o Ansawdd erbyn 2036.
- 100% o glybiau yn bodloni safonau cysylltiad â chydymffurfiaeth fel y'u gosodir gan CBDC.
- Pob club wedi ymrwymo i daith ddatblygu strwythuredig.
- Erbyn 2036, pob club, cynghrair a Chymdeithas Ardal wedi ymrwymo i Raglen Gwyrddach Gyda'n Gilydd CBDC, gan ymroi i wireddu dwy Nod Werdd lefel isel sy'n cyfrannu at amgylchedd pêl-droed mwy cynaliadwy.



AMCAN CORFFORAETHOL.

Sicrhau bod gan bawb
fynediad at gyfleusterau
cynhwysol, cynaliadwy o
ansawdd.



BLAENORIAETHAU


- Gwella mynediad at gyfleusterau presennol i glybiau, cymdeithasau a rhaglenni hamdden sydd â blaenoriaeth, gan archwilio cyfleoedd i addasu amserlenni i wella'r defnydd ohonynt.
- Integreiddio anghenion menywod a merched ym mhob prosiect i ddatblygu cyfleusterau er mwyn hybu twf a chynnal lefelau.
- Cefnogi mwy o glybiau i ddatblygu cyfleusterau cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y gymuned.
- Gweithredu cynlluniau cyfleusterau lleol i sefydlu hybiau cymunedol sy'n cysylltu clybiau blaenoriaeth, cymdeithasau a rhaglenni hamdden â'r blaenoriaethau datblygu cyfleusterau sydd wedi'u pennu.
- Ymgorffori anghenion presennol a dyfodol pêl-droed anabled o fewn prosiectau Sefydliad Pêl-droed Cymru (CFF).

MESURAU LLWYDDIANT


- Cyfleusterau pêl-droed o ansawdd o fewn 15 munud i bob cymuned yng Nghymru, gan roi blaenoriaeth i'r rhai sydd ei angen fwyaf.
- Cynnal adolygiad holistaidd o'r defnydd o gaeau chwarae, a chynyddu'r mynediad gyda blaenoriaeth at y cyfleusterau hyn i fenywod a merched o leiaf 50%.
- Gwella ansawdd caeau glaswellt fel bod o leiaf 50% o'r caeau glaswellt wedi'u sgorio'n 'Dda' gan fframwaith asesu CBDC/CFF.
- Datblygu dull i ddeall effaith gwell mynediad at gyfleusterau pêl-droed o ansawdd ar lefelau cymryd rhan, cynnal a chynhwysiant mewn pêl-droed cymunedol.




AMSERLEN Y CERRIG MILLTIR



CYDWEITHIO



LLWYDDO GYDA RHANDDEILIAID



	CYMDEITHASAU ARDAL Goruchwyllo Pêl-droed Ledled y Wlad Mewn Cydweithrediad â CBDC.
	CYNGHREIRIAU A CHYSTADLAETHAU DOMESTIG Cydweithio mewn ffordd gydweithredol er budd pawb ac er bydd datblygiad ehangach pêl-droed Cymru.
	YSGOLION A SEFYDLIADAU ADDYSGOL Cynnig cyfleoedd chwarae amgen hygyrch y tu allan i bêl-droed cymunedol.
	CHWARAEON CYMRU Buddsoddi mewn pêl-droed ar lawr gwlad, gosod fframweithiau a rheoliadau sy'n gwella pêl-droed ar lawr gwlad.
	LLYWODRAETH Buddosddi mewn pêl-droed llawr gwlad fel lwybr ar gyfer datblygu'r gymuned.
	GWEITHREDWYR CYFLEUSTERAU Darparu amgylchedd lle gall chwaraewyr a phobl sy'n ymwneud â phêl-droed deimlo'n ddiogel a bod croeso iddynt.
	FIFA AC UEFA Cysylltu â chymdeithasau cenedlaethol eraill i rannu gwybodaeth a dysgu o arfer gorau.



CYMRYD RHAN MEWN PÊL-DROED LLAWR GWLAD

P'un a ydych chi'n dyheu am chwarae, hyfforddi, dyfarnu, gwirfoddoli, cefnogi o'r ochr, neu gyfrannu fel partner masnachol, mae lle ystyrllon i chi mewn pêl-droed llawr gwlad. Mae pob person sy'n cymryd rhan yn helpu i adeiladu Cymru hyderus, lwyddiannus a chynhwysol trwy bêl-droed.

I wybod mwy am sut y gallwch gymryd rhan mewn pêl-droed llawr gwlad yn ogystal â chlybiau achrededig, gallwch ddod o hyd i wybodaeth [fan hyn](#).





DIOLCH.